

COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR POLISI A CHYLLID, CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, Ffordd Rhiw, Bae Colwyn, Nos Fercher, 9^{FED} Hydref 2019 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd N. Bastow (Maer y Dref a Chadeirydd dros dro)
Cynghorwyr H. Fleet, M.A. Jones, A. Khan, H. Meredith, P. Richards,

SWYDDOGION: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref
Miss L. Austin, Swyddog Gweinyddol Cynorthwyol

HEFYD YN

BRESENNOL: Nifer o Aelodau o'r Cyhoedd

207/19 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, penodwyd y Maer, y Cynghorydd N. Bastow i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor dros dro ac fe groesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod ganddo. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Chris Hughes (Cadeirydd), K. Swindon (Is-Gadeirydd), D. Howcroft, A. Pearson ag M. Pickard.

208/19 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Cynghorydd H. Fleet - Cysylltiad personol efo Eitem 12(c) - Ceisiadau C ac G am Grant Bychan, fel Cyfarwyddwr efo Colwyn Watersports. Oherwydd bod hwn yn £500 neu lai, mae'n cael ei eithrio ac felly nid yw yn gysylltiad all ragfarnu

Cynghorydd a. Khan - Cysylltiad personol efo Eitem 12(c) - Ceisiadau C ag E am Grant Bychan fel un o Lywodraethwyr Ysgol Nant y Groes. Oherwydd bod hwn yn £500 neu lai, mae'n cael ei eithrio ac felly nid yw yn gysylltiad all ragfarnu

209/19 Cofnodion:

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 21^{ain} Awst 2019.

Penderfynwyd derbyn y nodiadau o gyfarfod Gweithgor Asedau a Gwasanaethau'r Ardal Ganolog a gynhaliwyd ar 24^{ain} Medi 2019.

210/19 Materion yn Codi o'r Cofnodion:

a. Cofnod 127/19(b) – Cynnal a Chadw'r Gofeb Rhyfel:

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Clerc fe gwblhawyd y gwaith o gynnal a chadw'r Gofeb Rhyfel ym mis Medi. Cyflwynodd Datganiad drafft i'r Wasg i'w ystyried, gyda manylion am y gwaith a wnaed ac yn cynnwys manylion am y newid yn null gwasanaeth Sul y Cofio eleni..

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc dosbarthu'r Datganiad i'r cyfryngau lleol.

b. Cofnod 127/19(e) – Gweithgor Asedau a Gwasanaethau:

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24^{ain} Medi 2019. Hysbyswyd yr Aelodau gan y Clerc bod Pwyllgor Trosolwg Craffu Economi a Lle Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) wedi rhoi manylion am wyth o fannau oedd 'mewn perygl' lle, efallai, y gofynnir am gefnogaeth (meysydd chwarae, pyllau padlo, toiledau cyhoeddus, llyfrgelloedd cymunedol, cynnal a chadw a glanhau yn seiliedig ar leoedd, TCC, meysydd parcio, digwyddiadau lleol). Fe nodwyd bod y rhain braidd yn wahanol i'r 'Rhestr o Wasanaethau Cyngorau Tref a Chymuned' mwy cynhwysfawr a ddosbarthwyd yn Awst.

Cyflwynodd y Clerc hefyd y ddogfen a gynhyrchwyd gan Yswiriant Zurich, sef Canllawiau ar Reoli Risg (a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Tref Llandudno). Roedd hwn yn rhoi manylion am y gwaith ychwanegol a fyddai'n golygu pe bai'r Cyngor Tref yn cymryd y cyfrifoldeb am gyfleusterau allanol megis, er enghraifft archwiliadau beunyddiol o gynnal a chadw pyllau padlo.

Penderfynwyd nodi'r atebion a'r nodiadau o'r cyfarfod.

c. Cofnod 128/19(d) – Y Rheoliadau Ariannol Newydd (RhA):

Rhoddodd y Clerc adroddiad ar lafar am RA 6.20 sydd yn datgan 'Ni ddylid defnyddio cardiau credyd neu ddebyd personol yr aelodau neu'r staff mewn unrhyw amgylchiadau'. Rhoddodd y Clerc manylion am yr achlysuron lle defnyddiwyd cardiau personol gan Aelodau ac / neu staff (am nwyddau / gwasanaethau na ellid talu amdanynt trwy anfoneb, e.e. ad-dalu costau gwesty / prydau a phryniant ar-lein) a lle rhaid gwneud ad-daliad yn ddiweddarach.

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau na ellid defnyddio cerdyn credyd / debyd gyda'r math o gyfrif cyfredol a defnyddir gan y Cyngor Tref. Trafodwyd gan yr Aelodau a ddylid cynyddu maint y mân arian ar gyfer y fath wariant.

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth ac ystyriaeth, manylion am Gerdyn Caffael Cymreig Llywodraeth Cymru a ddefnyddir gan Glerc Cyngor Tref gyfagos. Trafodwyd gan yr Aelodau a fyddai'n ddoeth i gael ail gerdyn, i'w ddefnyddio gan y Clerc Cynorthwyol. Fe nodwyd, pe bai angen am ail gerdyn, byddai'n rhaid amnewid y Rheoliadau Ariannol, oherwydd, ar hyn o bryd maent yn datgan bod cerdyn a agorir gan y Cyngor yn gyfyngedig i'w ddefnyddio gan y Clerc yn unig.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ceisio mwy o wybodaeth ar sut bydd Cerdyn Caffael Cymreig yn gweithio, yn cynnwys gofyn a fyddai'n bosibl i gael ail gerdyn, ac yna adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn y man.

Fe benderfynwyd ymhellach i ofyn am wybodaeth am y fath o gerdyn a ddefnyddir gan staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC).

211/19 Cyllid:

- a. *Penderfynwyd rhoi awdurdod am y taliadau a wnaed ar ran y Cyngor yn y cyfnod o 1/8/2019 i 30/9/2019 sy'n ymddangos yn Atodiad 'A' sydd gyda hwn.*
- b. *Penderfynwyd derbyn y datganiadau cysoni'r banc fel yr oedd ar 30/9/2019 a rhoi awdurdod iddynt gael eu gwirio a'u llofnodi gan y Cadeirydd.*
- c. Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, gohebiaeth oddi wrth CCLA parthed Prisiau Eiddo'r Gronfa ag Enillion y Rhandaliadau ac Adroddiad y Farchnad ar gyfer Awst 2019. ...

Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth a'i nodi.

- ch. Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, y cyhoeddiad diweddar yn diweddarau 'Governance and Accountability for Local Councils in Wales - A Practitioners Guide (2019)'. Cynigodd y Clerc i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor unwaith iddi orffen darllen trwy'r Canllawiau.

Penderfynwyd nodi'r cyhoeddiad a disgwyl am unrhyw adroddiad pellach.

- d. Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, cyngor a dderbyniwyd oddi wrth Ymgynghorydd Ariannol Cenedlaethol Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol am yr ymdriniaeth o CCLA PSDF yng nghyfrifon ariannol y Cyngor, a dywedodd wrth yr Aelodau y disgwylir am sylwadau Swyddfa Archwilio Cymru.

Penderfynwyd nodi'r cyngor a disgwyl am eglurhad pellach.

dd. Archwiliad Allanol:

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, hysbysiad bod yr archwiliad wedi cael ei gwblhau a dywedodd wrth yr Aelodau bod yr adroddiad 'materion yn codi' wedi dynodi blwch na gafodd ei dicio.

Penderfynwyd nodi'r hysbysiad o gwblhau'r archwiliad a'r adroddiad am faterion yn codi.

212/19 Llywodraeth Cymru:

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol er gwybodaeth / i gael ei ystyried:

a. Deddf Amgylchedd Cymru 2016:

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Clerc am gyflwyniad a roddwyd i gynhadledd Un Llais Cymru yn ddiweddar, pan ddatgelwyd mai'r Cyngor Tref yw un o'r mudiadau gyda chyfrifoldeb statudol i ystyried effaith bioamrywiaethol ag amgylcheddol ar ei weithgareddau. Er nad oes gan y Cyngor Tref unrhyw dir yn ei meddiant, mae'n ddyletswydd arno i ddarparu adroddiad, cyn diwedd 2019 yn rhoi manylion am yr hyn a wnaed ganddo, ac yna ar ddiwedd pob tair blynedd.

Trafodwyd gan y Cynghorwyr sut oedd y Cyngor Tref ar hyn o bryd yn ystyried ei effaith amgylcheddol: roedd nifer o gynghorwyr yn rhan o grwpiau amgylcheddol, roedd y Cyngor yn cymryd rhan yn ymgyrchoedd Cymru a Phrydain yn ei Blodau,

a bod gan y Cyngor Warden Coed i roi cyngor ar faterion yn ymwneud a diogelu coed.

Penderfynwyd nodi'r dyletswyddau o dan Ddeddf Amgylchedd Cymru 2016 ac i ofyn i'r Clerc paratoi adroddiad cyn diwedd 2019.

213/19 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol er gwybodaeth:

(a) Cadarnhad o Is-etholiad yn Ward Rhiw:

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth ag ystyriaeth, e-bost oddi wrth y Swyddog Etholiadau ynglŷn â'r angen am gardiau pleidleisio a'r costau, ar gyfer yr Is-etholiad yn Ward Rhiw sydd i'w gynnal ar 14^{eg} Tachwedd.

Trafodwyd y costau gan yr Aelodau ac a ddylid dosbarthu'r cardiau pleidleisio a llaw ganfaswyr CBSC neu eu dosbarthu ail ddsbarth trwy'r Post Brenhinol. Fe nodwyd, oherwydd yr Isetholiadau yng Nghapelulo a Chonwy, efallai na fydd y dewis yma ar gael.

Mynegodd rhai Aelodau eu pryderon am y costau a dywedodd y Clerc wrthynt y bu cwynion y tro diwethaf y cynhaliwyd Is-etholiad heb gardiau pleidleisio, am nad oedd etholwyr yn gwybod am yr etholiad. Y canlyniad felly oedd nifer isel iawn o bleidleisiau.

Cyfeiriodd y Clerc at gynnig a wnaed gan Gynghorydd (yng nghyfarfod Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 8^{fed} Hydref 2019). Y cynnig oedd i gardiau pleidleisio cael eu dosbarthu gan wirfoddolwyr lleol yn gyfnewid am gyfraniad tuag at y prosiect o godi arian at ddiffibrilwyr. Roedd yr Aelodau o'r farn nad oedd hyn yn gymwys ac efallai y byddai'n groes i ddeddfwriaeth etholiadol.

Penderfynwyd bod y Clerc i adael i'r Swyddog Etholiadau wybod mai dewis cyntaf y Cyngor byddai: argraffu cardiau pleidleisio am gost o £215.00, a'u dosbarthu a llaw gan ganfaswyr CBSC am gost ychwanegol o £651.00. Ail dewis y Cyngor byddai: argraffu cardiau pleidleisio am gost o £215.00, a'u dosbarthu, ail ddsbarth gan y Post Brenhinol am gost ychwanegol o £1,270.00.

(b) Cyfarfod Bwrdd Rheoli Strategaeth Byw yn y Bae:

Fe nodwyd bod cyfarfod Bwrdd Rheoli Strategaeth Byw yn y Bae oedd i'w gynnal ar 23^{ain} Medi 2019, wedi cael ei symud i Hydref a bydd y Cynghorydd P. Richards yn adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

(c) Datblygiad Prosiect Lan y Môr

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am Brosiect Lan y Môr a drafodwyd yn ddiweddar mewn cyfarfod o Swyddogion Byw yn y Bae. Mae'r prosiect yn y cam cychwynol o gael ei ddylunio ac mae CBSC ar hyn o bryd yn cynnal ymarferion i gloriannu'r dewisiadau i ddiffinio ffiniau'r prosiect. Hyd yn hyn, yn fewnol yn unig o fewn CBSC bu'r ymgynghori a bydd yr ymgynghori cyhoeddus peth amser i ffwrdd. Gan na benderfynwyd ar lefel y cyllid hyd yn hyn, maent yn rheoli eu disgwyliadau ac

nid ydynt am i'r cyhoedd wybod, hyd nes bod yna fwy o bendantwydd am y cyllid, a'u bod yn gwybod sut fath o gynllun fydd ganddynt.

Roedd yr Aelodau o'r farn ei bod yn bwysig i fod yn rhan o'r cynllun ar y dechrau, yn arbennig oherwydd y nifer / maint o gonsesiynau arfaethedig fydd ar hyd y Promenâd.

Penderfynwyd nodi bydd Benjamin Poulton neu Oliver Edwards yn dod i gyfarfod nesaf y Cyngor ar 21^{ain} Hydref, i roi cyflwyniad am y cynlluniau hyd yn hyn.

214/19 Adeiladau:

(a) Cyflwynodd y Clerc amcan brisiau i'w ystyried am y canlynol:

(i) **Adnewyddu'r cytundeb cynnal a chadw a gynlluniwyd i ddiogelu'r offer ymdrin â nwy / gwresogi / awyru ar gyfer adeiladau Ffordd Rhiw yn gyfan gwbl.**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Clerc mai Fletchers Engineering oedd y contractwr presennol a'u bod wedi gwneud y gwaith am y tair blynedd diwethaf a bod y cynnydd yn y costau ers 2016 yn 5%. Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau y bu'n anodd cael amcan brisiau eraill er cymhariaeth am ei bod yn ofynnol i unrhyw gontractwr a gyflogir bod ar restr Heddlu Gogledd Cymru o gontractwyr a wiriwyd / cymeradwywyd.

Penderfynwyd ymestyn cytundeb Fletchers Engineering am flwyddyn arall am gost o £951.72 y flwyddyn.

(ii) **Arbrofion achlysurol o'r offer trydanol (Neuadd y Dref yn unig)**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried dau amcan bris am y gwaith o arbrofi'r offer trydanol yn achlysurol yn Neuadd y Dref yn unig. Cwblhawyd yr arbrofion diwethaf pum mlynedd yn ôl. Amcan bris A - £510.00 ag Amcan bris B - £375.00 + TAW @20%.

Penderfynwyd derbyn Amcan bris B: Bebbington & Wilson Cyf. am gost o £375.00 + TAW @20%.

(iii) **Glanhau / archwilio'r landeri – yr holl safle**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried dau amcan bris am y gwaith o lanhau ag archwilio'r landeri ar draws yr holl safle.

Amcan bris A - £275 + TAW i lanhau'r landeri pob blwyddyn ag i sicrhau y byddant yn glir o unrhyw lanast.

Amcan bris B - £450.00 i baratoi adroddiad ar archwiliad o'r landeri gan fanylu ar yr hyn sydd angen ei drwsio ac / neu adnewyddu.

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau nad oedd y contractwr blaenorol (Amcan bris A) wedi gallu dangos ffilm drôn yn ystod y gwaith glanhau blaenorol oherwydd safle'r adeilad ac fe gyflwynwyd e-bost gan y contractwr yn cadarnhau na fyddai yn gallu rhoi adroddiad archwiliad am mai gwasanaeth glanhau yn unig oeddynt.

Penderfynwyd rhoi awdurdod i dderbyn Amcan bris B: Alltrades i gynnal archwiliad o'r landeri a'r pibau dwr ar yr holl safle am gost o £450.

215/19 Pensiynau Gwynedd:

Cyflwynodd y Clerc rhybudd o'r Cyfarfod Gwerthuso a'r Cyfarfod Blynyddol sydd i'w gynnal yn Hydref.

Penderfynwyd derbyn y rhybuddion am y cyfarfodydd.

216/19 BID Colwyn:

Am nad oedd y Cynghorydd D. Howcroft yn bresennol, rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar i'r Pwyllgor am y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd yn ddiweddar ac am y Cyfarfod Cyffredinol Neilltuol sydd ar ddod. Cafwyd rhai problemau gyda'r ymdriniaeth o enwebu ac nad oedd rhai o'r enwebiadau yn cyd-fynd a'r meini prawf a rhai ffurflenni yn hwyr yn cyrraedd. Unwaith bydd y materion hyn wedi cael eu datrys, bydd enwebiad y Cyngor Tref, y Cynghorydd D. Howcroft fel ei gynrychiolydd ar Fwrdd BID yn dod i rym. Dywedodd y Clerc hefyd nad oedd BID am fynd am ail etholiad ac y buasai yn rhedeg hyd at 2021.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

217/19 Lwfansau Ward Aelodau Lleol:

Cyflwynodd y Clerc cynnig diwygiedig am brosiect gan y Cynghorydd C. Matthews i gael ei ystyried.

Cais y Cynghorydd Matthews oedd i'w Lwfans Ward Lleol am 2018/19 a ddsbarthwyd i Gymunedau ARC am £150 cael ei ailddosbarthu i Elusennau hynafol Tlodion Llandrillo, sy'n cefnogi Banc Bwyd Conwy gyda chyfraniad blynyddol. Roedd ei fuddiolwr gwreiddiol - Cymunedau ARC, wedi mynd i'r wal ac ni chafodd y siec ei gyflwyno i'r Banc.

Penderfynwyd cymeradwyo'r cynnig a gofyn i'r Clerc ailddosbarthu siec am £150 i fod yn daladwy i Elusennau hynafol Tlodion Llandrillo.

218/19 Grantiau:

(a) Cloc Coffa Andrew Fraser:

Dywedodd y Clerc wrth y Pwyllgor mai aflwyddiannus bu'r cais i Gronfa Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol, ond bu'r cais i Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr yn llwyddiannus ac fe ddaw cefnogaeth ychwanegol o £4,000 o Gronfa Gymunedol Gwastadeddau'r Rhyl, gan greu cyfanswm o £10,000 (gyda'r £1,000 a addawyd gan BID Colwyn).

Hysbyswyd yr Aelod gan y Clerc am brosiect arall oedd yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Colwyn yn ei Blodau, i osod cafnau blodau oddi mewn i reiliau addurniadol y cloc.

Penderfynwyd rhoi awdurdod i'r Clerc cwblhau a dychwelyd y Ffurflenni Derbyn Grant i Gronfa Gymunedol Gwynt y Môr a Chronfa Gymunedol Gwastadeddau'r Rhyl.

(b) Grantiau tuag at ddigwyddiadau:

(i) Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried prynu 32 o Glustffonau D-Shell gyda PTT / MIC ar gyfer offer radio'r Cyngor Tref (a ddefnyddir mewn digwyddiadau) allan o'r hyn sy'n weddill o gyllideb y Gronfa Digwyddiadau. Cyflwynodd y Clerc yr amcan brisiau canlynol i gael eu hystyried: Amcan bris A - 32 o glustffonau - £544; Amcan bris B - 32 o glustffonau - £479.68; Amcan bris C - 32 o glustffonau - £520.00.

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai cyflenwr A oedd wedi cyflenwi'r offer radio i'r Cyngor Tref ac mai hwy oedd yr unig gwmni oedd yn gallu anfonebu'r Cyngor.

Penderfynwyd prynu 32 o Glustffonau D-Shell gan Amcan bris A: Dee Communications am gost o £544.00.

(ii) Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, e-bost oddi wrth Alun Pritchard, Rheolwr Digwyddiadau mewn Partneriaeth i Motorsport UK, am ddigwyddiadau yng nghanol y dref mewn perthynas â Rali Cymru GB.

Datganodd yr Aelodau eu siom at faint y digwyddiadau yng nghanol y dref. Er y cyfarfod addawol a gynhaliwyd rhwng y Cynghorydd Fleet ag Alun Pritchard ym Mehefin / Gorffennaf, ni wireddwyd y syniadau a drafodwyd am weithgareddau 'gwyrd'. Cysylltwyd â'r Ffederasiwn Cadwraethol ac Amgylcheddol ychydig wythnosau cyn y digwyddiad i ofyn a oeddynt am blannu mwy o goed ac fe gyflwynwyd y dyddiadau casglu sbwriel yn Llandrillo yn Rhos.

Cadarnhaodd Clerc y Dref mai ar gyfer gweithgareddau yng nghanol y dref oedd y grant tuag at ddigwyddiadau, ac er nad oedd yn rhan o amodau'r gefnogaeth ariannol, roedd y Cyngor Tref wedi gofyn i'r trefnydd ystyried cyflwyno gweithgareddau / gwybodaeth i leddfu effaith y rasio ar yr agwedd amgylcheddol. Fe nodwyd bod CBSC wedi gallu arddangos cerbyd trydanol, ond roedd hyn ychydig ddyddiau cyn y digwyddiad ac nid oedd unrhyw wybodaeth / cyngor perthnasol ar gael.

Roedd yr Aelodau yn deall y rhwystra oedd yn wynebu A. Pritchard am fod y noddwr allweddol heb gytuno i arddangos cerbyd trydanol. Mynegwyd pryderon hefyd am nad oedd y chwe bin ailgylchu ar y Promenâd wedi cael eu gosod ger y consesiynau cyhoeddus. Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau ei bod wedi datgan ei phryderon i Rachael Gill, Rheolwraig Digwyddiadau Corfforaethol CBSC, am fod gan y Cyngor Tref perthynas parhaol da gyda thîm y digwyddiadau.

Fe nodwyd gan yr Aelodau bod y Rali wedi rhoi Bae Colwyn ar y map i gynulleidfa fyd-eang a bod y rhai a fynychodd y digwyddiad wedi clywed am gefnogaeth y Cyngor Tref ar yr uchel seinydd trwy gydol y digwyddiad.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gofyn am ddadansoddiad o gostau'r digwyddiad cyn talu'r anfoneb.

(iii) Cyngerdd / Cyngherddau Eirias

Fe nodwyd diweddariad ar lafar y Clerc am gynlluniau 2020 gan yr Aelodau. Roedd y trefniadau ar gyfer y digwyddiad yn y cam cychwynnol ond fe obeithir cynnal dau ddiwrnod o ddigwyddiadau

(iv) Digwyddiad y Pedwardegau:

Rhoddodd y Clerc diweddariad byr am y digwyddiad yn dilyn cyfarfod gyda phartneriaid allweddol. Yn y gorffennol, fe drefnwyd y digwyddiad gan Rwydwaith Busnes Bae Colwyn ac yn ddiweddarach gan BID Colwyn. Eleni, roedd Rachael Gill, Rheolwraig Digwyddiadau CBSC wedi galw am gyfarfod gyda'r trefnydd oedd wedi ei redeg ar ran BID llynedd am fod yna ychydig o faterion wedi codi a allai fod wedi rhwystro i'r digwyddiad mynd yn ei flaen.

Penderfyniad y cyfarfod oedd sefydlu pwyllgor newydd i wneud y trefniadau, a chytunodd yr Aelodau y dylai'r Cyngor Tref, fel y prif gyllidwr, bod yn un o'r partneriaid o gwmpas y bwrdd. Roedd prosiect DYCHMYGU hefyd yn dymuno bod yn rhan o'r digwyddiad, ond fe nodwyd bydd y prosiect yn dod i ben ymhen 18 mis. Gofynnwyd i Rachael Gill edrych os oedd gan GBSC unrhyw fodd i gefnogi'r pwyllgor i redeg / reoli digwyddiad 2020, er fe nodwyd byddai'n rhaid talu am staff CBSC. Cafodd dyddiad yn niwedd Ebrill ei grybwyll ar gyfer blwyddyn nesaf fel na fydd yn gwrthdaro gyda'r Ecstrafagansa Fictorianaid neu benwythnos y Pasg, gyda'r gobaith i gynnwys elfen o barti stryd yn arwain at ddatliadau Diwrnod VE.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a disgwyl am fwy o fanylion am gostau a'r gefnogaeth fydd ar gael gan Rachael Gill o GBSC.

(c) Grantiau Bychan:

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y ceisiadau am grantiau bychan a dderbyniwyd ar gyfer yr ail Chwarter 2019/20 fel y maent yn ymddangos yn Atodiad 'B sydd gyda hwn.

Penderfynwyd argymhell bod y grantiau i ymgeiswyr A, B, C a D yn cael eu talu yn unol â'r manylion yn yr atodiad hwnnw.

Ystyriodd yr Aelodau dichonolrwydd cais E. Oherwydd y dyblygiad gyda chais C, fe awgrymwyd y gallai bod yn fwy buddiol i'r ysgol weithio gyda'r Ffederasiwn Amgylcheddol a Chadwriaethol ac / neu geisio cyfraniadau o Lwfansau Ward Aelodau lleol ar gyfer yr arwyddion.

(ch) Fe nodwyd y derbyniwyd llythyrau o ddiolch / adroddiadau oddi wrth y canlynol a dderbyniodd grant:

- (i) Clwb Criced Bae Colwyn (Grant am Ddigwyddiad)
- (ii) Canolfan Gymunedol Bae Colwyn Uchaf (Grant Mawr)
- (iii) Darparu 'Chwarae Allan' CVSC
- (iv) Hope House / Ty Gobaith
- (v) Siop Cynghori ar Fudd-daliadau

Daeth y cyfarfod i ben am 7.55 p.m.

.....Cadeirydd